

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid Questions to the Finance Minister	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning	3

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid Questions to the Finance Minister

Llywodraeth Leol yn Alun a Glannau Dyfrdwy Local Government in Alyn and Deeside

C7 Carl Sargeant: Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's achievements in the field of local government in Alyn and Deeside? OAQ0319(LGP) *Transferred for written answer.*

Q7 Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog amlinellu cyflawniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes llywodraeth leol yn Alun a Glannau Dyfrdwy? OAQ0319(LGP) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Sue Essex: The Wales Programme for Improvement will ensure that local government delivers high-quality, cost-effective public services. I also recently concluded a policy agreement with Flintshire County Council, under which it will make significant improvements in service delivery by 2007. This is supported by an increase in unhypothecated funding of 5.4 per cent in 2005-06.

Sue Essex: Bydd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn sicrhau bod llywodraeth leol yn cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus cost-ffeithiol a da eu hansawdd. Yn ddiweddar hefyd, cwblheais gytundeb polisi â Chyngor Sir y Fflint ac o dan y cytundeb hwn bydd yn gwella'n sylweddol wrth gyflwyno gwasanaethau erbyn 2007. Cefnogir hyn gan gynnydd o 5.4 y cant mewn cyllid sydd heb ei bridianu yn 2005-06.

*Atebwyd cwestiynau 8 i 10 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 8 to 10 were answered in Plenary.*

System Gabinet Llywodraeth Leol The Cabinet System of Local Government

Q11 Jenny Randerson: What discussions has the Minister had with councils in Wales about their experience of operating the cabinet system of local government? OAQ0330(LGP) *Transferred for written answer.*

C11 Jenny Randerson: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chynghorau yng Nghymru ynglŷn â'u profiad o weithredu system gabinet llywodraeth leol? OAQ0330(LGP) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

Sue Essex: I have regular discussions with local authorities, both on an individual basis and collectively, on a wide range of subjects, including the operation of their political management structures.

Sue Essex: Byddaf yn trafod yn rheolaidd ag awdurdodau lleol, fesul un a chyda'i gilydd, ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys gweithredu'u strwythurau rheolaeth wleidyddol.

*Atebwyd cwestiwn 12 yn y Cyfarfod Llawn.
Question 12 was answered in Plenary.*

Ad-Daliadau Treth y Cyngor Council Tax Rebates

Q13 Rosemary Butler: Will the Minister make a statement about the efforts the Assembly is taking in order to inform the public of possible council tax rebates? OAQ0325(LGP)

C13 Rosemary Butler: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymdrechion y Cynulliad i hysbysu'r cyhoedd o ad-daliadau treth y cyngor posibl? OAQ0325(LGP)

Sue Essex: The Assembly Government is working with local authorities and the Department for Work and Pensions to help raise awareness of council tax benefit and encourage people to contact their local authority for advice and help in making a claim.

Sue Essex: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio ag awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau i helpu codi ymwybyddiaeth ynghylch budd-dal treth y cyngor ac i annog pobl i gysylltu â'u hawdurdod lleol i gael cyngor a chymorth wrth wneud cais.

Gwasanaethau Lleol yng Nghastell-nedd Port Talbot Local Services in Neath Port Talbot

Q14 Gwenda Thomas: Will the Minister make a statement on what measures she has taken to support Neath Port Talbot in improving the local services it delivers? OAQ0309(LGP)

C14 Gwenda Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau a gymerwyd ganddi i gynorthwyo Castell-nedd Port Talbot i wella'r gwasanaethau lleol a ddarperir ganddo? OAQ0309(LGP)

Sue Essex: I concluded a policy agreement with Neath Port Talbot County Borough Council in November 2004. Under this, the authority will make significant improvements in service delivery by 2007. The agreement reflects both our strategic priorities and Neath Port Talbot's particular needs.

Sue Essex: Cwblheais gytundeb polisi â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ym mis Tachwedd 2004. Dan y cytundeb hwn bydd yr awdurdod yn gwella'n sylweddol wrth gyflwyno gwasanaethau erbyn 2007. Mae'r cytundeb hwn yn adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol ni ac anghenion neilltuol Castell-nedd Port Talbot.

System Drwyddedu Newydd The New Licensing Regime

Q15 Peter Black: Will the Minister make a statement on the implications for local authorities of the new licensing regime? OAQ0317(LGP)

C15 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau'r system drwyddedu newydd i awdurdodau lleol? OAQ0317(LGP)

Sue Essex: The Licensing Act 2003 established an integrated scheme for

Sue Essex: Sefydlodd Deddf Drwyddedu 2003 gynllun integredig ar gyfer trwyddedu

licensing premises that are used for the supply of alcohol, regulated entertainment or late night refreshment. The Act will have an important role in the prevention of crime and disorder and public nuisance. Licensing is not devolved to the National Assembly.

safleoedd a ddefnyddir i gyflenwi alcohol, adloniant rheoliedig neu luniaeth yn hwyr y nos. Bydd gan y Ddeddf rôl bwysig wrth atal troseddu, anhrefn ac aflonyddu ar y cyhoedd. Nid yw trwyddedu wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

Ad-drefnu Ysgolion yn Abertawe The Reorganisation of Schools in Swansea

C13 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ad-drefnu ysgolion yn Abertawe? OAQ0359(ELL)

Q13 David Lloyd: Will the Minister make a statement on the reorganisation of schools in Swansea? OAQ0359(ELL)

Jane Davidson: I understand that Swansea local education authority is currently consulting on a number of school re-organisation proposals. Consultation ends on 13 July.

Jane Davidson: Yr wyf yn deall bod awdurdod addysg lleol Abertawe ar hyn o bryd yn ymgynghori ar nifer o gynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Daw'r ymgynghori i ben ar 13 Gorffennaf.

Cymunedau Difreintiedig Deprived Communities

Q14 John Griffiths: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government strategy to better support schools in Wales that serve our most deprived communities? OAQ0368(ELL)

C14 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi gwell cymorth i ysgolion yng Nghymru sy'n gwasanaethu ein cymunedau mwyaf difreintiedig? OAQ0368(ELL)

Jane Davidson: We support such schools through the better schools fund, which targets measures to raise attainment of disadvantaged pupils, through funding of £3 million each year since 2003-04 to support improvement in low performing schools and £3 million each year from 2005-06 to support community focused schools, and through the dissemination of the Narrowing the Gap findings.

Jane Davidson: Yr ydym yn cefnogi ysgolion o'r fath drwy'r gronfa ysgolion gwell sydd yn targedu mesurau i godi cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig, drwy roi £3 miliwn bob blwyddyn ers 2003-04 at wella ysgolion sy'n perfformio'n wael, a £3 miliwn bob blwyddyn o 2005-06 i gefnogi ysgolion sy'n ffocysu ar y gymuned, a drwy ganfyddiadau Cau'r Bwlch.

Cyfranogiad Rhieni yn y Broses Addysg Parental Participation in the Education Process

Q15 Denise Idris Jones: Will the Minister make a statement on measures to promote parental participation in the education process? OAQ0408(ELL)

C15 Denise Idris Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fesurau i hybu cyfranogiad rhieni yn y broses addysg? OAQ0408(ELL)

Jane Davidson: Information is key to parental participation in the education

Jane Davidson: Mae gwybodaeth yn allweddol wrth sicrhau cyfranogiad rhieni yn

process. We publish 'How is your child doing at School?' annually. Schools are required to provide parents with performance data about their children, and to publish school level information in their prospectuses. A wide range of information is available on the 'Parentsnet' website.

y broses addysg. Yr ydym yn cyhoeddi 'Sut mae'ch plentyn yn dod ymlaen yn yr Ysgol?' bob blwyddyn. Mae'n rhaid i ysgolion ddarparu gwybodaeth i rieni am berfformiad eu plant, a chyhoeddi gwybodaeth am lefelau'r ysgol yn eu prospectws. Mae ystod eang o wybodaeth ar gael ar y wefan 'Rhwydrhieni'.